# Ordinhad 7

# Y Cyngor: Penodi'r Ysgrifennydd

| | |
|---|---|
| **Corff Cymeradwyo:** | Y Cyngor |
| **Dyddiad Cymeradwyo:** | 25 Tachwedd 2024 |
| **Perchennog y Polisi:** | Ysgrifennydd y Brifysgol |
| **Swyddog Polisi:** | Swyddog Contractau |
| **Statws y Polisi:** | Diwygiwyd |
| **Fersiwn:** | 1.2 |
| **Dyddiad adolygu:** | Hydref 2024 |
| **Dyddiad Adolygu Nesaf:** | Hydref 2026 |

## Ordinhad 7
## Y Cyngor: Penodi’r Ysgrifennydd

1. Os bydd swydd Ysgrifennydd y Cyngor yn wag neu ar ddod yn wag, penodir yn unol â Phroses Recriwtio a Dethol y Brifysgol, ac ar y telerau ac amodau a bennir gan y Cyngor.

2. Wrth ystyried penodi Ysgrifennydd y Cyngor, bydd y Cyngor yn ystyried gallu'r Cyngor i gynnal ei waith yn Gymraeg ac yn Saesneg.

3. Penodir Ysgrifennydd y Cyngor gan ddefnyddio'r swydd-ddisgrifiad a ddatblygwyd gan Grŵp Clercod ac Ysgrifenyddion Cymru.

4. Pa gyfrifoldebau eraill bynnag a all fod gan y sawl a benodir, mewn perthynas â’u cyfrifoldebau fel Ysgrifennydd, mae'r Ysgrifennydd yn atebol i'r Cyngor yn unig, mae'n adrodd yn uniongyrchol i Gadeirydd y Cyngor, ac fe’i gwerthusir yn unol â phroses a sefydlwyd gan y Cyngor.